

Goodwick Moor is a 15.4 hectare nature reserve with extensive areas of reed bed, flood plain mire, wet and dry scrub and willow/alder carr. A complex network of ditches crisscross the site between the two streams that mark the eastern and western boundaries of the reserve.

Water levels are usually highest from October to April and the entire moor can often be flooded when spring tides coincide with periods of heavy rain.

The reed bed covers much of the reserve and supports a wide range of bird species including breeding Sedge and Reed warbler whilst also providing cover for the elusive otter.



*Cetti's warbler / Thelor Cetti*

Reed bunting is resident, whilst Swallows roost here in autumn. The scrub and wet woodland provide habitat for Willow warbler, Stonechat, Marsh tit, and Cetti's warbler with Bittern, Snipe and Siskins also using the reserve in winter.

Raptors including Kestrel, Sparrowhawk and Buzzard are often seen overhead whilst Mallard and other waterfowl may be seen on the open water areas.

The ditch vegetation includes the Grey club-rush, Bog bean, Marsh marigold, Branched burr reed, Water mint and Bog pondweed which attract many invertebrates such as hoverflies, dragonflies and damselflies.

The Blue tailed and Azure damselfly, Southern hawkler and Golden-ringed dragonfly are present.



*Bog myrtle / Helygen mair*



*Golden-ringed dragonfly / Gwas y neidr*

The Hemlock water dropwort is especially attractive to bees, wasps and flies which in turn provide a rich food source for the reserve's breeding birds.

Wet conditions also allow for a variety of fungi, lichen and mosses.

The critically endangered Willow blister is found here.

Reptiles include Common lizard and Grass snake.

Mae Rhos Wdig yn warchodfa natur 15 hectar o faint sy'n cynnwys darnau helaeth o welyau cyrs, gwern orlifdirol, prysgwydd sych a gwlyb, a ffen helyg/gwern. Mae rhwydwaith cymhleth o ffosydd yn cris-croesi'r safle rhwng y ddwy nant sy'n nodi ffiniau dwyreiniol a gorllewinol y warchodfa.

Fel arfer mae lefel y dŵr ar ei uchaf rhwng Hydref ac Ebrill, a gall y rhos gyfan fod dan ddŵr pan fydd llanw mawr yn cyd-daro â chyfnodau o law mawr.

Mae cyrs yn gorchuddio llawer o'r warchodfa ac yn cynnal amrywiaeth eang o adar gan gynnwys teloriaid yr hesg a'r cyrs yn bridio, ac yn cynnig cysgod i'r dyfrgi swil.

There are also a good number of moth and butterfly species including the Poplar hawk-moth, Comma, Painted Lady and Ringlet butterflies.

Some of the special plants to be seen from the boardwalk are Bog myrtle, Royal Fern and Marsh cinquefoil.



*Common lizard / Madfallod*



*Marsh marigold / Gold y gors*

Mae breision y cyrs yma gydol y flwyddyn, a gwenoliaid yn clwydo yma yn yr hydref. Mae'r prysgwydd a'r coetir gwlyb yn cynnig cynefini delor yr helyg, clochdar y cerrig, titw'r wern a thelor Cetti, ac mae adar y bwn, giachod a philaod gwyrdd yn defnyddio'r warchodfa yn y gaeaf.

O ran adar ysglyfaethus, gwelir cudyll coch, gwalch glas a bwncath yn aml uwchben, ac mae hwyaid gwyllt ac adar dŵr eraill i'w gweld ar ddŵr agored.

Ymhlith llysiâu'r ffosydd mae llafwrwyn arfor, ffa'r gors, gold y gors, cleddlys canghennog, mintys y dŵr a dyfrllys y gors, sydd yn eu tro'n denu llawer o greaduriaid di-asgwrn-cefn megis pryfed hofran, gweision neidr a mursennod.

Mae mursennod tinlas cyffredin a glas asur yn bresennol, yn ogystal â gweision neidr y de ac eurodrchog. Mae hefyd niferoedd da o wyfynod ac ieir bach yr haf, gan gynnwys gwalch-wyfyndod poplys, mentyll carpiog, mentyll tramor a gweirloynod y glaw.

O'r llwybr estyll gallwch weld gwyrddling, rhedyn cyfrdwy a phumnalen y gors. Mae cegiden y dŵr yn arbennig o ddeniadol i wenyn, cacwn a chlêr sydd yn eu tro yn ffynhonnell dda o fwyd i'r adar sy'n magu ar y warchodfa.

Mae'r amodau gwlyb hefyd yn caniatáu i amrywiaeth o ffyngau, cennau a mwsoglau ffynnu. Mae'r warchodfa hefyd yn gartref i'r ffwng crachen helyg, sydd mewn perygl difrifol.

Ymhlith yr ymlusgiaid sy'n ymgartrefu yma mae madfallod a nadredd y gwair.



*Otter / Dyfrgi*

# GOODWICK MOOR

## Pembrokeshire



The Wildlife Trust of South and West Wales works to conserve all forms of wildlife. We manage nearly 100 nature reserves comprising woodlands, meadows, moors, marshes, and islands such as Skomer. We campaign on your behalf against damaging development, provide advice on your land management needs and help people of all ages to understand and enjoy our wildlife.

You can help....Volunteers are essential to the Trust. Whatever your interest and ability your spare time is valuable to us.

Members are vital in supporting our work. Your contribution makes the Trust even more effective and every member strengthens the voice of the Trust. Join today if you want to help save local wildlife.

For more details of volunteering or joining as a member, call your nearest office;

Tondu, Bridgend 01656 724100  
Cilgerran, Cardigan 01239 621600

Or email: [info@welshwildlife.org](mailto:info@welshwildlife.org)

Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn gweithio i warchod pob math o fywyd gwyllt. Rydym yn rheoli bron i 100 o warchodfeydd natur sy'n cynnwys coetiroedd, dolydd, rhosydd, corysdd ac ynysoedd fel Sgomer. Rydym yn ymgyrchu ar eich rhan yn erbyn datblygiadau niweidiol, yn darparu cyngor ynghylch eich anghenion rheoli tir ac yn helpu pob oedran i ddeall a mwynhau ein bywyd gwyllt.

Gallwch chi helpu....Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i'r Ymddiriedolaeth. Waeth beth yw eich diddordeb a'ch gallu, mae eich amser rhydd yn werthfawr iawn i ni.

Mae aelodau'n hanfodol i gefnogi ein gwaith. Mae eich cyfraniad chi'n gwneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy effeithiol fyth ac mae pob aelod yn cryfhau llais yr Ymddiriedolaeth. Ymunwch heddiw os am helpu i achub bywyd gwyllt lleol.

Am fanylion pellach am wirfoddoli neu ymuno fel aelod, ffoniwch eich swyddfa agosaf:

Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr 01656 724100  
Cilgerran, Aberteifi 01239 621600

Neu e-bost: [info@welshwildlife.org](mailto:info@welshwildlife.org)



The Wildlife Trust manages the reserve to protect and enhance this ideal mixture of habitats, as well as providing access for the public. To protect the habitat for wildlife, fishing is not permitted.

Directions to the reserve - Take the Public Footpath just uphill of the Seaview Hotel (situated on the A40 trunk road between Goodwick and Fishguard). Access is gained by crossing a small bridge over the Goodwick Brook. A boardwalk (750m in length) provides circular access through the reserve and quiet visitors will be able to enjoy its secretive wildlife.

Public transport - Nearest bus stop at the Parrog opposite Tesco Express. Service number 410 and 412 from Haverfordwest and Fishguard. Strumble Shuttle 3 days/week winter, daily in summer from Fishguard Square.

Grid references - O.S. Explorer map OL35 North Pembrokeshire. Main entrance: SM947374, Site centre: SM945375.

### DOGS MUST BE KEPT ON LEAD AT ALL TIMES.

If walking alone, please tell someone where you are and what time to expect you back. Wear appropriate clothing and footwear, planning ahead for changes in the weather. An Ordnance Survey map is always useful for additional information. Please follow the countryside code.

Mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn rheoli'r warchodfa er mwyn diogelu a gwella'r cymysgedd delfrydol hwn o gynefinoedd, yn ogystal â darparu mynediad i'r cyhoedd. Er mwyn diogelu'r cynefin ar gyfer bywyd gwyllt, ni chaniateir pysgota.

Cyfarwyddiadau i'r warchodfa - Dilynwch y llwybr cyhoeddus ychydig uwchlaw Gwesty'r Seaview (ar gefnffordd yr A40 rhwng Wdig ac Abergwaun). Cewch fynediad trwy groesi pompren fach dros Nant Wdig. Mae llwybr estyll yn rhedeg mewn cylch o 750m trwy'r warchodfa a bydd ymwelwyr tawel yn gallu mwynhau ei natur gudd.

Trafnidiaeth gyhoeddus - mae'r arhosfan fysus agosaf ar y Parrog gyferbyn â Tesco Express. Gwasanaethau rhif 410 a 412 o Hwlfordd ac Abergwaun. Gwibiwr Strwmbl 3 diwrnod yr wythnos yn y gaeaf, pob dydd yn yr haf o Sgwâr Abergwaun.

Cyfeirnodau Grid - Map Explorer OL35 yr OS (Gogledd Sir Benfro). Prif fynedfa: SM947374, Canol y safle: SM945375.

### RHAID CADW CŴN AR DENNYN BOB AMSER.

Os yn cerdded ar eich pen eich hun, cofiwch ddweud wrth rhywun ble rydych chi a pha bryd y dylent eich disgwyl yn ôl. Gwisgwch ddillad ac esgidiau priodol, gan gynllunio ymlaen llaw ar gyfer newid mewn tywydd. Mae map Arolwg Ordnans yn ddefnyddiol bob amser ar gyfer gwybodaeth ychwanegol. Cadwch at y cod cefn gwlad.